



Cyngor Bro Morgannwg

Cyngor Ymgynghorol Sefydlog ar

Addysg Grefyddol (CYSAG)

**Cyngor Ymgynghorol Sefydlog (CYS) ar
Grefydd, Gwerthoedd a Moeseg**

Adroddiad Blynyddol 2023-24

(Mae'r ddogfen hon ar gael yn Saesneg / This document is available in English)

CYNNWYS	TUDALEN
NEGES GAN CYSAG/CYS	3
ADRAN 1: GWYBODAETH AM CYSAG/CYS	
1.1 Dyletswydd i sefydlu CYSAG/CYS	4
1.2 Cyfansoddiad CYSAG/CYS	4
1.3 Aelodaeth CYSAG/CYS	4
1.4 Swyddogaethau CYSAG/CYS	4
1.5 Cofnodion Cyfarfodydd	5
1.6 Dosbarthu'r Adroddiad	5
ADRAN 2: CYNGOR AR ADDYSG GREFYDDOL A CHREFYDD, GWERTHOEDD A MOESEG	
2.1 Y Maes Llafur Cytûn Lleol	6
2.2 Safonau mewn Addysg Grefyddol a Chrefydd, Gwerthoedd a Moeseg	6
2.3 Cwricwlwm	7
2.4 Dysgu Proffesiynol ac Adnoddau i Ymarferwyr	8
ADRAN 3: CYNGOR AR GYDADDOLI	
3.1 Adroddiadau Arolygon Ysgol	10
3.2 Ceisiadau ar gyfer Pennu	10
3.3 Ymweliadau Ysgol	10
ADRAN 4: CRYNODEB O FEYSYDD ERAILL	
4.1 CCYSAGG	11
4.2 Panel Ymgynghorol Cenedlaethol Addysg Grefyddol (PYCAG)	11
4.3 Hyfforddi aelodau CYSAG/CYS	11
4.4 Llais leuenctid ar gyfer CGM a CAD	12
ATODIAD 1: AELODAETH CYSAG/CYS 2023-2024	13
ATODIAD 2: AMSERLEN AC AGENDA CYFARFODYDD	14
ATODIAD 3: CYLCHREDIAD YR ADRODDIAD	18
ATODIAD 4: CYFANSODDIAD CYSAG/CYS	19
ATODIAD 5: DYSGU PROFFESIYNOL, ADNODDAU A DEUNYDDIAU WEDI'U RHANNU AG YMARFERWYR	24

NEGES GAN CYSAG/CYS 2023-2024

Wrth i ni barhau i gyflwyno'r Cwricwlwm i Gymru, mae CYSAG/CYS Bro Morgannwg wedi parhau i ddarparu cyngor, arweiniad, adnoddau a mynediad at ddysgu proffesiynol i'n hymarferwyr, i'w grymuso i barhau i ddarparu crefydd, gwerthoedd a moeseg (CGM) effeithiol i'n dysgwyr.

Mae CYSAG/CYS wedi parhau i weithio mewn partneriaeth â'r Gwasanaeth Gwella ysgolion rhanbarthol, Gwasanaeth Addysg ar y Cyd Consortiwm Canolbarth y De (GACCCD), ac i gefnogi ac ymgysylltu â CCYSAGC. Mae CYSAG/CYS wedi bod yn ffodus o fod wedi profi gwybodaeth uniongyrchol gan ysgolion yn yr ALL. Mae tair ysgol yn yr ALL wedi cynnal ein cyfarfodydd CYSAG/CYS ac mae pob un wedi rhoi cyflwyniad i rannu eu cwricwlwm CGM sy'n esblygu. Mae'r ymweliadau hyn wedi profi i fod yn gyfle gwerthfawr i aelodau CYSAG/CYS weld "CGM ar waith". Rydym yn croesawu unrhyw wahoddiadau i aelodau ymweld â'n hysgolion/lleoliadau i weld drostynt eu hunain y gwaith AG/AstC/CGM sy'n cael ei wneud yno ac i rannu arfer da â CYSAG/CYS.

Mae llawer o newidiadau yn parhau ym myd AG/AstC/CGM, gyda hyd yn oed mwy o newidiadau ar y gorwel gyda Cymwysterau Cymru a CBAC yn gweithio ar TGAU newydd mewn astudiaethau crefyddol (AstC) a chynnig ehangach y gyfres o gymwysterau, gan gynnwys y Sgiliau ar gyfer Bywyd a'r Sgiliau ar gyfer Gwaith a'r Dyniaethau Sylfaen, a fydd, yn y pen draw, yn disodli'r cymwysterau presennol ar gyfer dysgwyr. Bydd y fanyleb 'drafft' newydd ar gyfer yr AstC TGAU newydd yn cael ei chyhoeddi ym mis Medi 2024. Gall athrawon ac eraill a fydd yn gyfrifol am weithredu'r newidiadau hyn fod yn sicr o gefnogaeth barhaus CYSAG/CYS a GACCCD.

Hoffai CYSAG/CYS Bro Morgannwg ddiolch i bawb sy'n ymwneud â chynllunio ac addysgu AG/AstC/CGM, am eu gwaith rhagorol, gan roi'r gofal, y gefnogaeth a'r ymroddiad i ddysgwyr sir Bro Morgannwg. Hoffai'r Awdurdod Lleol ddiolch i aelodau CYSAG/CYS am eu hymrwymiad parhaus, eu presenoldeb, eu cyfranogiad a'u cyfraniadau er budd dysgu AG/AstC/CGM a CAD yn yr ALL.

Mae CYSAG/CYS Bro Morgannwg yn croesawu gohebiaeth drwy'r Clerc: fwright@valeofglamorgan.gov.uk

ADRAN 1: GWYBODAETH AM CYSAG/CYS

1.1 Dyletswydd i Sefydlu CYSAG/CYS

Mae'n ofynnol i bob awdurdod lleol sefydlu Cyngor Ymgynghorol Sefydlog ar Addysg Grefyddol (CYSAG) a Chyngor Ymgynghorol Sefydlog (CYS) mewn Crefydd, Gwerthoedd a Moeseg yn eu hardal leol. Bydd CYSAG a CYS Bro Morgannwg yn rhannu aelodaeth ac yn cyfarfod fel un corff gydag un cyfansoddiad/Cylch Gorchwyl.

1.2 Cyfansoddiad CYSAG/CYS

Penderfynir aelodaeth y Cyngor Ymgynghorol Sefydlog ar Addysg Grefyddol (CYSAG) gan Ddeddfau Addysg 1944 a 1993, a Deddf Diwygio Addysg 1988. Mae aelodaeth y Cyngor Ymgynghorol Sefydlog (CYS) ar Grefydd, Gwerthoedd a Moeseg yn cael ei bennu gan Ddeddf Cwricwlwm ac Asesu 2021 yng Nghymru. Mae gan CYSAG/CYS dri grŵp cyfansoddol; mae gan bob grŵp hawl i un bleidlais:

- aelodau a benodwyd i'r grŵp i gynrychioli crefydd, enwad neu argyhoeddiad athronyddol anghrefyddol, i'r graddau y mae'n gyson â chyflawni swyddogaethau'r grŵp yn effeithlon, yn adlewyrchu'n fras gryfder cymesur y grefydd, enwad neu argyhoeddiad athronyddol anghrefyddol hwnnw yn yr ardal
- cymdeithasau sy'n cynrychioli athrawon/ymarferwyr
- awdurdod lleol (ALI)

1.3 Aelodaeth CYSAG/CYS

Rhestrir yr Aelodau sy'n cynrychioli pob un o'r grwpiau hyn ar gyfer 2023-2024 yn Atodiad 1.

1.4 SWYDDOGAETHAU CYSAG/CYS

Prif swyddogaeth CYSAG/CYS yw:

- cynghori'r Awdurdod Lleol (ALI) am addysg grefyddol (AG), crefydd, gwerthoedd a moeseg (CGM), astudiaethau crefyddol (AstC) a'r weithred ddyddiol o gydaddoli (CAD)
- argymhell bod yr ALI yn adolygu'r maes llafur cytûn drwy gynnull Cynhadledd Maes Llafur Cytûn
- ystyried ceisiadau gan ysgolion ar gyfer penderfyniadau (i'w heithrio rhag y gofyniad bod addoliad i fod "yn gyfan gwbl neu'n bennaf o gymeriad Cristnogol cyffredinol"
- cyhoeddi adroddiad blynyddol ar ei waith
- chwarae rhan yn y weithdrefn gwyno statudol leol lle mae achosion sy'n ymwneud ag AG, CGM, AstC a CAD

Gall cyngor i'r Awdurdod Lleol ymwneud ag:

- addysgeg
- y dewis o adnoddau addysgu
- darparu dysgu proffesiynol
- unrhyw fater arall sy'n ymwneud ag AG, AstC, CGM a CAD y mae CYSAG/CYS yn ei ystyried yn briodol

1.5 COFNOD O GYFARFODYDD

Yn ystod 2023-2024, cynhaliwyd y tri chyfarfod yn bersonol:

- Dydd Mercher 15 Tachwedd 2023 am 3.45pm
- Dydd Mercher 6 Mawrth 2024 am 3.45pm
- Dydd Mercher 26 Mehefin 2024 am 3.45pm

Mae cofnod o brif eitemau'r agenda a drafodwyd yn ystod y cyfarfodydd yn Atodiad 2.

1.6 DOSBARTHU'R ADRODDIAD

Mae copïau o'r adroddiad hwn wedi eu dosbarthu i'r sefydliadau a restrir yn Atodiad 3.

ADRAN 2: CYNGOR A RODDWDYD GAN CYSAG/CYS AR ADDYSG GREFYDDOL A CHREFYDD, GWERTHOEDD A MOESEG

2.1 Y Maes Llafur Cytûn Lleol

Ym mis Chwefror 2022, ail-fabwysiadodd yr ALL ei faes llafur cytûn etifeddol ar gyfer AG. Yn 2022, cytunodd awdurdod lleol Bro Morgannwg ar faes llafur newydd ar gyfer CGM, dan y Cwricwlwm i Gymru newydd. Mae copïau o'r ddau faes llafur cytûn ar gael ar wefan y cyngor, gwefan GACCCD a chan Glerc CYSAG/CYS.

2.2 Safonau mewn Addysg Grefyddol (AG), Astudiaethau Crefyddol (AstC) a Chrefydd, Gwerthoedd a Moeseg (CGM)

Mae CYSAG/CYS yn rhoi cyngor i'r Awdurdod Lleol ar safonau mewn AG/AstC/CGM. Mae CYSAG/CYS wedi archwilio amrywiaeth o ffyrdd i ystyried safonau mewn AstC a CGM:

- Gwahoddir ymarferwyr i rannu eu harferion da ag aelodau CYSAG/CYS yn y cyfarfodydd tymhorol. Mae CYSAG/CYS yn annog cydweithio rhwng ysgolion i nodi a chefnogi arfer da. Mae fforwm Llais Ieuencid GACCCD/GCA ar gyfer CGM a CAD, sydd newydd ei sefydlu, yn annog cydweithio pellach, rhannu arfer da a gwrandao ar lais dysgwyr i hysbysu ymarferwyr, ysgolion/lleoliadau a CYSAG/CYS.
- Mae CYSAG/CYS yn adolygu adroddiadau arolygu Estyn i nodi a rhannu arfer effeithiol ac i gefnogi ysgolion ag AG, CGM, datblygiad Addysg Ysbrydol, Moesol, Cymdeithasol a Diwylliannol a'r weithred ddyddiol o gydaddoli (CAD). Yn 2023-24, ystyriwyd canfyddiadau arolwg dim lleoliadau meithrin nas cynhelir, pedair ysgol gynradd, dim ysgolion uwchradd, dim ysgolion arbennig ac arolwg yr ALL gan CYSAG/CYS. Gwnaed sylwadau cadarnhaol gan Estyn sy'n berthnasol i AG a CGM ynghyd â darparu Addysg Ysbrydol, Moesol, Cymdeithasol a Diwylliannol a CAD. Roedd CYSAG/CYS yn falch o nodi'r sylwadau cadarnhaol hyn a gofnodwyd gan Estyn. Mae CYSAG/CYS wedi anfon llythyrau o longyfarchiadau neu gynigion o gefnogaeth i ysgolion unigol, yn dilyn cyhoeddi eu hadroddiad Arolwg Estyn. Mae CYSAG/CYS wedi codi pryderon bod newidiadau i adroddiadau Estyn wedi ei gwneud hi'n anoddach i CYSAG/CYS fonitro safonau ym maes Addysg Grefyddol/CGM fel y mae'n ofynnol, yn ôl deddfwriaeth, i'w wneud – un o'r swyddogaethau sy'n ofynnol gan CYSAG/CYS. Codwyd y pryderon hyn gyda CCYSAGC, Estyn, yr awdurdod lleol a Llywodraeth Cymru. Mae trafodaethau'n parhau o ran monitro'r ddarpariaeth cwricwlwm, addysgeg a safonau yn y meysydd hyn.
- Mae CYSAG/CYS yn ystyried rhannu a thrafod canlyniadau arholiadau AstC TGAU a TAG bydeang ar gyfer ysgolion yn yr ALL, yn unol â chyngor CCYSAGC.

Mae CYSAG/CYS yn parhau i argymhell yr adnoddau canlynol i ymarferwyr, penaethiaid a llywodraethwyr ysgolion:

Cyhoeddiadau [Estyn](#):

- [Sut rydym yn arolygu ar gyfer arolygiadau o 2023](#)
- [Beth rydym yn ei arolygu Ysgolion a gynhelir ac UC'Dau – ar gyfer arolygiadau o 2023](#)

Ar gyfer darpariaeth 'AG' i ddysgwyr sy'n astudio'r cwricwlwm etifeddol cyn hir:

- [Addysg Grefyddol mewn Ysgolion Uwchradd \(Estyn, Mehefin 2013\)](#)
- [Addysg Grefyddol yng nghyfnod allweddol 2 a chyfnod allweddol 3 \(Estyn, Mehefin 2018\)](#)
- [Adolygiad o'r cwricwlwm 16-19 presennol yng Nghymru](#)

2.3 Cwricwlwm

Cwricwlwm i Gymru:

Mae aelodau CYSAG/CYS wedi cael diweddariadau tymhorol a chynghor manwl gan Ymgynghorydd Cyswllt GACCCD ar gyfer AG/CGM/AstC a CYSAG/CYS ynghylch datblygiadau'r cwricwlwm. Mae CYSAG/CYS wedi cynghori bod pob ysgol yn cael gwybod am y gofyniad i roi sylw i faes llafur cytûn lleol Cwricwlwm i Gymru 2022 a'r canllawiau CGM statudol ar Hwb. Mae CYSAG/CYS wedi cynghori bod pob ysgol yn cael ei hatgoffa nad oes hawl gan rieni i dynnu'n ôl o CGM yn y Cwricwlwm i Gymru. Mae GACCCD wedi llunio adnoddau i ysgolion er mwyn sicrhau eu bod yn ymwybodol o'r gofynion cyfreithiol ar gyfer CGM o fewn Cwricwlwm i Gymru.

Mae CYSAG/CYS wedi trafod y newidiadau i CGM fel un o ofynion statudol y Cwricwlwm i Gymru gan nodi ei fod yn orfodol i bob dysgwr rhwng 3 ac 16 oed, wrth i'r cwricwlwm hwn gael ei gyflwyno.

Dywedodd CYSAG/CYS am bwysigrwydd CGM 'gwrthrychol, beirniadol a phlwraliaethol' yn y Cwricwlwm i Gymru. Mae GACCCD wedi rhoi cynghor ar hyn i Brif Bartner Gwella y rhanbarth, Partneriaid Gwella a'r ymarferwyr a'r llywodraethwyr hynny sydd wedi ymgysylltu â dysgu proffesiynol, cyfarfodydd rhwydweithio ac ardaloedd cymunedol ar ardal gwefan GACCCD.

Mae CYSAG/CYS yn paratoi canllawiau ar siaradwyr gwadd a darparwyr allanol, i gefnogi penaethiaid ac ymarferwyr CGM, o fewn yr ALL.

Trafododd CYSAG/CYS ddatblygiad ysbrydol yn fframwaith Cwricwlwm i Gymru.

Mae CYSAG/CYS wedi trafod ymgynghoriadau a phenderfyniadau Cymwysterau Cymru ynghylch AstC TGAU newydd (ar gyfer ei addysgu o fis Medi 2025) a chymwysterau sgiliau ehangach (i'w haddysgu o fis Medi 2027). Rhannwyd trafodaeth ar y cynigion yn CCYSAGC â CYSAG/CYS. Cyflwynwyd ymateb grŵp ar ran y pum CYSAGau/CYSau yn rhanbarth Consortiwm Canolbarth y De (GACCCD). Mynegwyd pryderon ynghylch sut y byddai'r cymwysterau newydd yn diwallu anghenion pob dysgwr ac yn unol â chwricwlwm CGM CaW. Bu aelodau CYSAG/CYS yn ystyried modiwlau cymhwyster ehangach Cymwysterau Cymru mewn perthynas â CGM. Buont yn trafod barn CCYSAGC ar hyn, ynghyd ag adborth ymarferwyr.

Cyflwynodd Cymwysterau Cymru eu hymatebion i'r ymgynghoriadau yng ngwanwyn 2024, trwy weminarau byw a gwybodaeth a gyhoeddwyd ar eu gwefan. Cyflwynwyd a thrafodwyd y canlyniadau hyn yn CYSAG/CYS. Anogodd CCYSAGC ymateb i ganlyniadau Cymwysterau Cymru. Cyflwynodd CYSAG/CYS eu pryderon a'u cwestiynau i CCYSAGC.

Cwricwlwm Blwyddyn 9 i Flwyddyn 13:

Trafododd CYSAG/CYS y cwricwlwm a gofynion yr hawl i dynnu'n ôl ar gyfer dysgwyr ym Mlynnyddoedd 9 ac uwch sy'n derbyn AG yn unol â'r maes llafur cytûn etifeddol.

Mae'r hawl i dynnu'n ôl yn dal i fod ar waith ar gyfer y dysgwyr hyn. Mae canllawiau CCYSAGC ar yr hawl hon wedi'u dosbarthu gan CCYSAGC/CYSAG/CYS i bob ysgol/lleoliad: [Rheoli'r Hawl i Dynnu Disgyblion yn ôl o Addysg Grefyddol, 2017](#).

Trafododd CYSAG/CYS dueddiadau cenedlaethol mewn cofrestriadau ar gyfer TGAU a Safon Uwch ers 2017 ac ystyriodd adroddiad Cyngor Addysg Grefyddol Cymru a Lloegr ar y mater. Mae'r CCYSAGC a'r PYCAG yn rhannu'r pryderon ynghylch llai o geisiadau. Mynegwyd pryderon hefyd am hygyrchedd a phriodoldeb y cymhwyster AstC presennol. Trafododd CYSAG/CYS ostyngiadau diweddar mewn mynediad ar gyfer TGAU AstC, yr amser a ddyrannwyd i gymwysterau TGAU mewn ysgolion a'r brwdfrydedd dros opsiwn AstC cwrs byr. Cyngorodd CYSAG/CYS ymarferwyr i ymgysylltu â grwpiau cynghori CBAC i drafod y cymhwyster newydd i'w addysgu gyntaf o fis Medi 2025.

Trwy rwydweithiau ymarferwyr GACCCD, cafodd ysgolion eu diweddarau ar y newidiadau i fanylebau TGAU a TAG 2024 ar gyfer Astudiaethau Crefyddol.

2.4 Dysgu Proffesiynol ac Adnoddau i Ymarferwyr

Mae CYSAG/CYS Bro Morgannwg yn parhau i ddarparu deunyddiau ategol sy'n gysylltiedig â maes llafur cytûn yr ALL. Y bwriad yw i'r rhain fod yn ddogfennau, deunyddiau ac adnoddau 'byw' i adlewyrchu esblygiad y Cwricwlwm i Gymru.

Mae CYSAG/CYS yn dal i gydnabod ac yn cefnogi'r ystod eang o adnoddau dysgu proffesiynol a chyfleoedd rhannu a ddarperir gan CBAC, CCYSAGC a GACCCD ar gyfer ymarferwyr AG, AstC a CGM, ac mae wedi annog ysgolion i ymgysylltu â'r cynnig hwn a chael mynediad ato.

Mae GACCCD, fel darparwr rhanbarthol gwasanaethau gwella ysgolion a chymorth dysgu proffesiynol i ysgolion ac ymarferwyr, wedi darparu ystod eang o raglenni dysgu proffesiynol, deunyddiau a dulliau a rennir ag ysgolion yn yr ALL. Mae GACCCD wedi rhannu diweddariadau ar gyfer yr holl ddysgu proffesiynol sy'n gysylltiedig â'r pwnc, cyfarfodydd rhwydwaith a dolenni i adnoddau â CYSAG/CYS trwy bapurau briffio a thrafodaeth ym mhob cyfarfod.

- Mae GACCCD yn darparu cyfleoedd rhwydweithio a rhannu tymhorol i ymarferwyr uwchradd a chynradd, dan arweiniad ymarferwyr mewn ysgolion a staff GACCCD. Roedd cyfleoedd rhwydweithio uwchradd yn canolbwyntio ar rannu arfer yn ymwneud â safonau ar lefel TGAU a Safon Uwch, cwrs 'Archwilio Bydolygon' Agored Cymru, CGM ym maes profiad dysgu'r dyniaethau (MDaPh), a datblygu cysylltiadau â phynciau eraill. Yng nghyfarfod yr hydref rhannodd yr ysgol ei phrosiect 'First Give' fel rhan o'r cwricwlwm CGM.
- Mae GACCCD wedi sefydlu cyfleoedd rhwydweithio newydd ar gyfer ysgolion arbennig ac UC Dau. Mae cyfarfodydd tymhorol wedi canolbwyntio ar ddylunio'r cwricwlwm dyniaethau a CGM, gan rannu arferion da a chydweithio wrth ddatblygu adnoddau.

- Mae GACCCD yn darparu cefnogaeth bwrpasol am ddim i unrhyw ysgolion yr ALL ar gais. Darparwyd cymorth CGM pwrpasol penodol i wyth ysgol ym Mro Morgannwg yn 2023-24 a oedd yn canolbwyntio ar:

- cynllun y cwricwlwm o ran CGM
- cynllunio unedau gwaith
- arweinyddiaeth CGM/AstC gan gynnwys hunanwerthuso
- cydaddoli
- addysgeg

Rhoddwyd cymorth pwrpasol i'r dyniaethau, a oedd yn cynnwys CGM, i un ar ddeg o ysgolion ym Mro Morgannwg. Cafwyd digwyddiad cefnogi clwstwr i un grŵp clwstwr o ysgolion o fewn yr ALL ar gyfer y cyfnod hwn a derbyniodd un ysgol gymorth pwrpasol ar gyfer CAD hefyd.

- Mae GACCCD wedi cynnig amrywiaeth o ddigwyddiadau dysgu proffesiynol, prosiectau a rhaglenni sy'n gysylltiedig â CGM/AstC/AG, fel rhan o gynnig dysgu proffesiynol Dyniaethau GACCCD. Mae'r cyfleoedd hyn ar gael i bob ymarferydd ym Mro Morgannwg. Mae enghreifftiau o'r ystod o ddysgu proffesiynol, adnoddau a deunyddiau a ddatblygwyd ac a rennir i gefnogi ysgolion gan GACCCD a CYSAG/CYS i'w gweld yn Atodiad 6. Mae cyfanswm o 34 o ymarferwyr, o ALL Bro Morgannwg, wedi cymryd rhan mewn dysgu proffesiynol ar gyfer CGM, a 30 arall ar gyfer y dyniaethau, gan gynnwys cynnwys CGM, yn ystod 2023-24. Mae'r ymarferwyr hyn yn gynrychiolwyr o un ar hugain o'r pum deg tair o ysgolion yn awdurdod lleol Bro Morgannwg, sy'n cyfateb i 39.6%.

ADRAN 3: CYNGOR AR GYDADDOLI

Mae Cylchlythyr 10/94 y Swyddfa Gymreig yn nodi y dylai'r Awdurdod Addysg Lleol weithio gyda CYSAG/CYS i fonitro'r ddarpariaeth ar gyfer CAD a dylai ystyried gydag ef unrhyw gamau y gellir eu cymryd i wella'r ddarpariaeth o'r fath.

Trafododd CYSAG/CYS gyngor ar CAD a derbyniodd wybodaeth am drafodaethau yn CCYSAGC a PYCAG ynghylch ymholiadau am yr hawl i dynnu'n ôl. Rhoddwyd cyngor i ysgolion unigol ym Mro Morgannwg gan Ymgynghorydd Cyswllt GACCCD. Trafododd CYSAG/CYS ymholiadau a phryderon rhanddeiliaid ynghylch y mater hwn.

Mae GACCCD wedi cyflwyno sesiynau 'galw heibio' ar gyfer CAD. Gall unigolion, a grwpiau o ysgolion ym Mro Morgannwg drefnu cyfarfodydd i dderbyn cymorth pwrpasol ar gyfer CAD.

Gwnaethpwyd CYSAG/CYS ac ysgolion yn yr ALL yn ymwybodol o ganllawiau ychwanegol ar gyfer CAD trwy rwydweithiau GACCCD, dysgu proffesiynol, ac ardaloedd cymunedol:

- [Arweiniad atodol: addoli ar y cyd mewn ysgolion anenwadol 2017](#)
- [CCYSAGC](#) - Canllawiau ar dynnu disgyblion yn ôl o gydaddoli, Hydref 2021
- Estyn, Canllawiau atodol: cydaddoli mewn ysgolion anenwadol, 2013

3.1 Adroddiadau Arolygon Ysgol

Mae CYSAG/CYS wedi parhau i gefnogi ysgolion i gyflawni eu gofynion statudol ar gyfer CAD. Mae CYSAG/CYS wedi monitro adroddiadau arolygu Estyn ar gyfer argymhellion sy'n ymwneud â CAD ac Addysg Ysbrydol, Moesol, Cymdeithasol a Diwylliannol ac mae'r Awdurdod Lleol yn mynd ar drywydd unrhyw ddiffyg cyflawni gofynion statudol drwy ofyn am gynllun gweithredu'r ysgol.

Mae CYSAG/CYS wedi parhau i hysbysu ysgolion am wybodaeth ac adnoddau priodol sy'n ymwneud â CAD. Mae GACCCD wedi llunio adnodd, sydd ar gael ar eu gwefan, [CAD: Bodloni'r Gofynion Deddfwriaethol](#). Pan fydd materion neu argymhellion yn cael eu hamlygu gan Estyn ynghylch CAD, mae'r awdurdod lleol yn mynd ar drywydd y rhain.

3.2 Ceisiadau i'w penderfynu arnynt

Rhaid i gydaddoli fod o natur Gristnogol ar y cyfan. Mae'r weithdrefn benderfynu yn caniatáu atal y gofynion hyn mewn perthynas â rhai neu'r holl ddisgyblion/dysgwyr mewn ysgol lle bernir eu bod yn amhriddol. Ni dderbyniwyd unrhyw geisiadau gan ysgolion o fewn ALL Bro Morgannwg ar gyfer penderfyniadau yn 2023-24.

3.3 Ymweliadau Ysgol

Ni wnaed ymweliadau ysgol gan CYSAG/CYS ar gyfer y Weithred Ddyddiol o Gydaddoli (CAD) yn ystod blwyddyn academiaidd 2023-2024. Mae CYSAG/CYS wedi mynegi bwriad i weld arfer yn gysylltiedig â CAD yn 2024-25.

Adran 4: CRYNODEB O FEYSYDD ERAILL

4.1 CCYSAGC

Mae CYSAG/CYS yn parhau i gefnogi gwaith CCYSAGC ac yn cydnabod gwerth y corff wrth hyrwyddo AG/AstC/CGM a CAD yn genedlaethol. Cynhelir trafodaethau llawn yn CYSAG/CYS ar y materion a godwyd gan CCYSAGC. Cynrychiolir ALI Bro Morgannwg ar bwyllgor Gweithredol CCYSAGC gan y Cadeirydd ac sydd, ers haf 2024, yn Gadeirydd CCYSAGC. Yn CYSAG/CYS Bro Morgannwg, caniateir i'r Cadeirydd, yr Ymgynghorydd Cyswllt a dau aelod CYSAG/CYS arall o'r ALI fod yn bresennol, hyd at uchafswm o bedwar aelod o bob ALI. Cynrychiolwyd yr ALI hefyd yng Nghynhadledd CGM CCYSAGC yn 2024 a chyflwynodd aelodau CYSAG/CYS Bro Morgannwg weithdai.

4.2 Panel Ymgynghorol Cenedlaethol Addysg Grefyddol (PYCAG)

Cynrychiolwyd CYSAG/CYS yn llawn ar PYCAG gan Ymgynghorydd Cyswllt GACCCD ar gyfer AG/AstC/CGM a CYSAG/CYS. Mae CYSAG/CYS wedi cael gwybod am ddatblygiadau ledled Cymru ac mae wedi chwarae rhan allweddol wrth lywio penderfyniadau a pholisïau sy'n effeithio ar AG. Mae'r PYCAG wedi gweithio'n agos gyda Llywodraeth Cymru a rhanddeiliaid eraill wrth ddatblygu'r cwricwlwm newydd, ac ar ddatblygu'r canllawiau statudol ar CGM yn y Cwricwlwm i Gymru. Mae CYSAG/CYS hefyd wedi derbyn adroddiadau a gwybodaeth eleni gan Estyn, a Llywodraeth Cymru yn ymwneud â CGM.

4.3 Hyfforddi Aelodau CYSAG/CYS

Fel rhan o hyfforddiant i aelodau, mae CYSAG/CYS wedi:

- rhoi'r wybodaeth ddiweddaraf i'r aelodau am ddatblygiadau ym maes AG/AstC/CGM a CAD drwy gyflwyniadau rheolaidd, trafodaethau a chyngor gan GACCCD
- gwahodd aelodau i gyfarfodydd Cymdeithas CYSAGau Cymru (CCYSAGC)
- sicrhau bod y CYSAG/CYS yn cael ei gynrychioli yn CCYSAGC a bod aelodau'n derbyn adborth rheolaidd
- annog aelodau newydd i fynychu gweminar CCYSAGC, a hwylusir gan Ymgynghorydd Cyswllt GACCCD ar gyfer CGM/AG/AstC, a Phartner Cwricwlwm y Gwasanaeth Cyflawni Addysg (GCA) ar gyfer CGM
- rhannu sesiynau hyfforddi gweminar ar-lein am ddim, gyda [Chymdeithas Genedlaethol y Cyngor Ymgynghorol Sefydlog ar Addysg Grefyddol \(CCCYSAG\)](#)
- darparu'r [Llawlyfr CCYSAGC ar gyfer aelodau newydd](#) CYSAG/CYS

4.4 Llais Ieuenctid ar gyfer CGM a CAD

Mae CYSAG/CYS wedi archwilio sefydlu cynrychiolaeth ieuenctid trwy fforwm Llais Ieuenctid traws-ranbarthol. Mae CYSAG/CYS wedi bod yn gefnogol i'r prosiect ac wedi gweithio gyda chynghorwyr yr ALL a GACCCD i ystyried y ffordd orau o sicrhau bod lleisiau pobl ifanc yn cael eu clywed. Sefydlwyd fforwm Llais Ieuenctid CGM a CAD a chynhaliwyd cyfarfod cychwynnol ym mis Gorffennaf 2024. Cynrychiolir ysgolion Bro Morgannwg ar y fforwm, ac mae dysgwyr o'r ALL wedi cyfrannu eu barn a'u profiadau o AG/CGM/CAD. Cynhelir cyfarfodydd tymhorol yn y flwyddyn academaidd nesaf ac yn dilyn pob cyfarfod bydd adborth yn cael ei roi i CYSAG/CYS Bro Morgannwg mewn cyfarfodydd tymhorol.

ATODIAD 1: AELODAETH CYSAG/CYS BRO MORGANNWG 2023-24

Pwyllgor C - Awdurdod Lleol (6 lle)

Y Cyngorydd Eddie Williams (Cadeirydd)	Awdurdod Lleol
Y Cyngorydd Nic Hodges (ymddiswyddodd haf 2024)/Cyngorydd Julie Aviet (o haf 2024)	Awdurdod Lleol
Y Cyngorydd Susan Lloyd-Selby (ymddiswyddodd haf 2024)/ Swydd wag (o haf 2024)	Awdurdod Lleol
Y Cyngorydd Ewan Goodjohn	Awdurdod Lleol
Y Cyngorydd Rhys Thomas	Awdurdod Lleol
Swydd wag	Awdurdod Lleol

Pwyllgor B - Cymdeithasau athrawon (8 lle)

Jean-Marc Alter	Cymdeithas Genedlaethol yr Ysgolfeistri ac Undeb yr Athrawesau
Tyler Saunders	Cymdeithas Genedlaethol yr Ysgolfeistri ac Undeb yr Athrawesau

Swydd wag

Swydd wag

Swydd wag

Swydd wag

Swydd wag

Pwyllgor A - Enwadau crefyddol ac argyhoeddiadau athronyddol anghrefyddol (12 lle)

Moawia Bin-Sufyan	Islam
Dr Ramez Delpak (ymddiswyddodd Haf 2024)	Bahá'í
Y Parch Phillip Hibbert	Bedyddwyr
Kalpana Natarajan	Sanatana Dharma/Hindŵ Dharma/Hindŵaeth
Elaine Holley	Bedyddwyr
Kathy Riddick (Is-gadeirydd)	Dyneiddiaeth
Claire Lewis (ymddiswyddodd Gwanwyn 2024) / Paul Booth (o wanwyn 2024)	Yr Eglwys yng Nghymru
Bernadette Vella-Jones	Yr Eglwys Gatholig
Norma Glass (o haf 2024)	Iddewiaeth
Swydd wag	Sikhiaeth/Sîc
Swydd wag	Eglwysi Rhyddion
Swydd wag	Bwdhaeth

Aelodau Cyfetholedig: 4 lle

Dafydd Treharne

Marged Williams

Swydd wag

Swydd wag

Swyddogion ALL

Trevor Baker Pennaeth Strategaeth, Dysgu Cymunedol ac Adnoddau.

Jeremy Morgan – Swyddog Awdurdod Lleol a Chlerc CYSAG/CYS (ymddiswyddodd yn ystod Tymor yr Hydref 2023)

Francesca Wright o Dymor yr Hydref 2023 Uwch Swyddog Cymorth Llywodraethwyr a Chlerc CYSAG/CYS.

Ymgynghorydd i CYSAG/CYS

Donna Graves

Ymgynghorydd Cyswllt GACCCD ar gyfer AG/AstC/CGM a CYSAG/CYS

ATODIAD 2: Cyfarfodydd Bro Morgannwg a Phrif Eitemau ar yr Agenda

Dydd Mercher 15 Tachwedd 2023 am 3.45pm

Lleoliad: Ysgol Uwchradd Pencoedtre y Barri

Eitem	Agenda	Arwain	Papurau
1.	Croeso ac ymddiheuriadau (CYSAG/CYS)	EW	
2.	Cyflwyniad: AG/AstC/CGM yn Ysgol Uwchradd Pencoedtre	Ysgol	
3.	CYSAG/CYS 3.1 Ethol Cadeirydd ac Is-gadeirydd (CYSAG / CYS) 3.2 Aelodaeth (CYSAG/CYS) 3.3 Cylch Gorchwyl/diweddariad Cyfansoddiad (CYSAG/CYS)	FW FW FW	3.3
4.	Cofnodion y cyfarfod diwethaf 07/06/2023 (CYSAG/CYS)	Cadeirydd	4.
5.	Materion sy'n codi (CYSAG/CYS)	Cadeirydd	
6.	Papur briffio (CYSAG/CYS)	DG	6.
7.	Adroddiad Blynyddol CYSAG/CYS Bro Morgannwg 2022-2023 (CYSAG/CYS) 7.1 Drafft 7.2 Awgrymiadau CYSAG/CYS i'r Awdurdod Addysg Lleol	Cadeirydd/ DG	7.1
8.	Adroddiadau Arolwg Estyn (CYSAG/CYS)	DG	8.
9.	CCYSAGC (CYSAG/CYS) 9.1 Cofnodion haf 2023, 19/06/2023 9.2 Cofnodion drafft o Gyfarfod Cyffredinol Blynyddol 2023 9.3 Agenda Hydref 2023, 25/10/2023 9.4 Canllawiau LIC ar gyfer CYSAG CYS ar ddata	DG	9.1 9.2 9.3 9.4
10.	CCYSAGC (Ymgynghoriad CBAC)		10

	10.1 Dogfen Ymgynghori Astudiaethau Crefyddol TGAU – Ymateb CCYSAGC Dolen i'r ddogfen ymgynghori: https://www.cbac.co.uk/media/euraaota/gcse-religious-studies-qualification-outline-consultation-version-w.pdf (cbac.co.uk) Dolen i'r arolwg adborth: https://www.cbac.co.uk/erthyglau-casgliad/ton-2-cymwysterau-tgau-gwneud-i-gymru-a-chymwysterau-cysylltiedig-ymgynghoriadau-ar-gael-nawr/: RELIGIOUS STUDIES Survey (surveymonkey.co.uk)																		
11.	Amserlen ar gyfer cyfarfodydd yn y dyfodol (CYSAG/CYS) <table border="1"> <thead> <tr> <th></th><th>Dyddiad y Cyfarfod</th><th>Lleoliad</th><th>Amser</th></tr> </thead> <tbody> <tr> <td>Gwanwyn 2024</td><td>06/03/2024</td><td>I'w gadarnhau</td><td>3.45pm</td></tr> <tr> <td>Haf 2025</td><td>19/06/2024</td><td>I'w gadarnhau</td><td>3.45pm</td></tr> <tr> <td>Hydref 2026</td><td>I'w gadarnhau</td><td>I'w gadarnhau</td><td>3.45pm</td></tr> </tbody> </table>		Dyddiad y Cyfarfod	Lleoliad	Amser	Gwanwyn 2024	06/03/2024	I'w gadarnhau	3.45pm	Haf 2025	19/06/2024	I'w gadarnhau	3.45pm	Hydref 2026	I'w gadarnhau	I'w gadarnhau	3.45pm	Cadeirydd	
	Dyddiad y Cyfarfod	Lleoliad	Amser																
Gwanwyn 2024	06/03/2024	I'w gadarnhau	3.45pm																
Haf 2025	19/06/2024	I'w gadarnhau	3.45pm																
Hydref 2026	I'w gadarnhau	I'w gadarnhau	3.45pm																
12.	Eitemau agenda ar gyfer Agenda Gwanwyn 2024 (CYSAG/CYS)	Cadeirydd																	
13.	Unrhyw Fater Arall (CYSAG/CYS)	Cadeirydd																	

Dydd Mercher 6 Mawrth 2024 am 3.45pm

LLEOLIAD: TEAMS (cynadledda ar-lein)

	Eitem Agenda	Person	Papurau
1.	Croeso ac ymddiheuriadau (CYSAG/CYS)	Cadeirydd	
2.	Cofnodion o gyfarfod yr hydref 15 Tachwedd 2023 (CYSAG/CYS)	Cadeirydd	2. Cofnodion
3.	Materion sy'n codi (CYSAG/CYS)	Cadeirydd	
4.	Diweddariadau (CYSAG/CYS) 4.1 Aelodaeth 4.2 Cyfansoddiad/Cylch Gorchwyl CYSAG/CYS 4.3 Dosbarthiad Adroddiad Blynyddol	Swyddog ALL	4.2 4.3

5.	Adroddiad Briffio Bro Morgannwg (CYSAG/CYS) 5.1 Adroddiad Briffio 5.2 Astudiaeth Achos – Ysgol Gynradd yr Eglwys yng Nghymru Sain Nicolas 5.3 Pytiau o Lwyddiant (Rhagfyr 2023) – Ysgol Uwchradd Pencoedtre	Ymgynghorydd	5.1 5.2 5.3																
6.	Crynodebau Arolygon Estyn (CYSAG/CYS)	Ymgynghorydd	6.																
7.	CCYSAGC (CYSAG/CYS) 7.1 Cofnodion Cyfarfod Tymor yr Hydref 7.2 Cyfarfod tymor y gwanwyn – 5 Mawrth 2024 7.3 Cynhadledd – 13 Mehefin 2024 (Wrecsam) 7.4 Enwebeion gweithredol CCYSAGC	Ymgynghorydd	7.1 7.3 7.4																
8.	Llais Ieuenctid (CYSAG/CYS)	Ymgynghorydd	8.																
9.	Amserlen cyfarfodydd y dyfodol: (CYSAG/CYS) <table border="1"> <thead> <tr> <th></th><th>Dyddiad y Cyfarfod</th><th>Lleoliad</th><th>Amser</th></tr> </thead> <tbody> <tr> <td>Haf 2024</td><td>19/06/24</td><td>I'w gadarnhau</td><td>3.45pm</td></tr> <tr> <td>Hydref 2024</td><td>I'w gadarnhau</td><td>I'w gadarnhau</td><td>3.45pm</td></tr> <tr> <td>Gwanwyn 2025</td><td>I'w gadarnhau</td><td>I'w gadarnhau</td><td>3.45pm</td></tr> </tbody> </table>		Dyddiad y Cyfarfod	Lleoliad	Amser	Haf 2024	19/06/24	I'w gadarnhau	3.45pm	Hydref 2024	I'w gadarnhau	I'w gadarnhau	3.45pm	Gwanwyn 2025	I'w gadarnhau	I'w gadarnhau	3.45pm	Cadeirydd	
	Dyddiad y Cyfarfod	Lleoliad	Amser																
Haf 2024	19/06/24	I'w gadarnhau	3.45pm																
Hydref 2024	I'w gadarnhau	I'w gadarnhau	3.45pm																
Gwanwyn 2025	I'w gadarnhau	I'w gadarnhau	3.45pm																
10.	Argymhellion i'r ALI (CYSAG/CYS)	Cadeirydd																	
11.	Unrhyw Fater Arall (CYSAG/CYS)	Cadeirydd																	

Dydd Mercher 26 Mehefin 2024 am 3.45pm

LLEOLIAD: TEAMS (cynadledda ar-lein)

Eitem	Eitem Agenda	Person	Papurau
1.	Croeso ac ymddiheuriadau (CYSAG/CYS)	Cadeirydd	

2.	Cyngor ar gyfer Ysgolion - adnodd drafft newydd (CYS)	Ymgynghorydd	2.																
3.	Cofnodion a materion yn codi (CYSAG/CYS)	Cadeirydd	3.																
4.	Diweddariadau (CYSAG/CYS) 4.1 Aelodaeth 4.2 Cyfansoddiad/Cylch Gorchwyl CYSAG/CYS	Cadeirydd/ Swyddog yr ALI	4.2																
5.	Adroddiad Briffio Bro Morgannwg (CYSAG/CYS)	Ymgynghorydd	5.																
6.	Crynodebau Arolygon Estyn (CYSAG/CYS)	Ymgynghorydd	6.																
7.	CCYSAGC (CYSAG/CYS) 7.1 Cofnodion cyfarfod tymor y gwanwyn – 5 Mawrth 2024 7.2 Cynhadledd – 13 Mehefin 2024 (Wrecsam) 7.3 Enwebeion ar gyfer Pwyllgor Gweithredol CCYSAGC (Gwybodaeth yn unig – dim pleidleisio) 7.4 Nodiadau Cyfarfod Cyffredinol Blynnyddol CCYSAGC 2023	Ymgynghorydd	7.1 7.2 7.3																
8.	Llais Ieuenctid (CYSAG/CYS)	Ymgynghorydd	8.																
9.	Amserlen cyfarfodydd y dyfodol: (CYSAG/CYS) <table border="1"> <thead> <tr> <th></th><th>Dyddiad</th><th>Lleoliad</th><th>Amser</th></tr> </thead> <tbody> <tr> <td>Hydref 2024</td><td>I'w gadarnhau</td><td>I'w gadarnhau</td><td>3.30pm</td></tr> <tr> <td>Y Gwanwyn 2025</td><td>I'w gadarnhau</td><td>I'w gadarnhau</td><td>3.30pm</td></tr> <tr> <td>Haf 2025</td><td>I'w gadarnhau</td><td>I'w gadarnhau</td><td>3.30pm</td></tr> </tbody> </table>		Dyddiad	Lleoliad	Amser	Hydref 2024	I'w gadarnhau	I'w gadarnhau	3.30pm	Y Gwanwyn 2025	I'w gadarnhau	I'w gadarnhau	3.30pm	Haf 2025	I'w gadarnhau	I'w gadarnhau	3.30pm	Cadeirydd	
	Dyddiad	Lleoliad	Amser																
Hydref 2024	I'w gadarnhau	I'w gadarnhau	3.30pm																
Y Gwanwyn 2025	I'w gadarnhau	I'w gadarnhau	3.30pm																
Haf 2025	I'w gadarnhau	I'w gadarnhau	3.30pm																
10.	Awgrymiadau ar gyfer eitemau agenda ar gyfer cyfarfod Hydref 2024 (CYSAG/CYS)	Cadeirydd																	
11.	Argymhellion/awgrymiadau i'r ALI? (CYSAG/CYS)	Cadeirydd																	
12.	Unrhyw Fater Arall (CYSAG/CYS)	Cadeirydd																	

ATODIAD 3: CYLCHREDIAD YR ADRODDIAD BLYNYDDOL

Bydd copïau o'r adroddiad blynyddol hwn yn cael eu hanfon yn electronig i'r cyrff perthnasol. Bydd yr adroddiad hwn ar gael ar wefannau'r Awdurdod Lleol a CCYSAGC i bartïon â diddordeb eu lawrlwytho.

Rhestr o Sefydliadau y mae'r adroddiad hwn yn cael ei anfon atynt

- Aelodau CYSAG/CYS Bro Morgannwg:
- Cyfarwyddiaeth Dysgu a Sgiliau Cyngor Bro Morgannwg
- Pob ysgol/lleoliad ym Mro Morgannwg
- Cymdeithas CYSAGau/CYSau Cymru (CCYSAGC)
- Llywodraeth Cymru
- Y Llyfrgell Genedlaethol
- Consortiwm Canolbarth y De
- Estyn

ATODIAD 5: DYSGU PROFFESIYNOL, ADNODDAU A DEUNYDDIAU WEDI'U RHANNU AG YMARFERWYR

Mae GACCCD wedi cynnig ystod o gyfleoedd dysgu proffesiynol, ar gyfer pob ymarferwyr yn y rhanbarth, yn canolbwyntio ar rannu arferion a grymuso athrawon. Mae'r rhestr ganlynol yn rhoi gwybodaeth am agweddau ar gynnig dysgu proffesiynol GACCCD sy'n berthnasol i AG/CGM/CAD. Mae'r rhain wedi bod ar gael i ysgolion Bro Morgannwg.

Adnoddau dysgu proffesiynol wedi'u cynhyrchu gan GACCCD:

- Mae [Ardal Cymuned Dyniaethau Cynradd GACCCD](#) yn rhannu amrywiaeth o gyhoeddiadau a ffeiliau sy'n berthnasol i'r Cwricwlwm i Gymru
- [Dyniaethau Uwchradd GACCCD](#): Mae Ardal Cymuned CGM yn rhannu amrywiaeth o gyhoeddiadau a ffeiliau sy'n berthnasol i'r Cwricwlwm i Gymru, Addysg Grefyddol ac Astudiaethau Crefyddol
- Mae [Banc Gwybodaeth GACCCD](#) yn cynnwys amrywiaeth o ddeunyddiau ar CGM ar gyfer ymarferwyr
- [Ymholi a Dehongli yn y Dyniaethau](#). Mae adnodd rhestr chwarae newydd bellach ar gael yma i gefnogi ymarferwyr i ddeall a datblygu sgiliau ymholi a dehongli yn y Dyniaethau, gyda thudalennau penodol ar gyfer CGM yn ogystal â'r pedwar pwnc arall yn y Dyniaethau.
- Rhestr chwarae argyhoeddiadau athronyddol anghrefyddol [yma](#)
- CGM: Cwrdd â'r Gofynion Deddfwriaethol – mae'r adnodd newydd ar gael – [cynradd](#); [uwchradd](#)
- Y Weithred Ddyddiol o Gydaddoli (CAD): Cwrdd â'r Gofynion Deddfwriaethol – mae'r adnodd newydd ar gael - [dolen](#)
- CGM ac Athroniaeth i Blant ('P4C') – cysylltiadau adnoddau newydd astudiaethau achos prosiect wedi'i ariannu – [Cynradd](#); [Uwchradd](#)
- Prosiect a ariennir 'CGM Gwrthrychol, Beirniadol a Phlwrailiaethol', ynghyd â'r Eglwys yng Nghymru, astudiaethau achos, adnodd newydd - [dolen](#)
- CGM a Gwyddoniaeth – astudiaethau achos prosiect a ariennir [dolen](#)
- Astudiaethau achos CGM – [cynradd](#); [uwchradd](#)
- Adnoddau CGM, Amrywiaeth a Gwrth-Hiliaeth – [cynradd](#); [uwchradd](#)
- Rhestr chwarae argyhoeddiadau athronyddol anghrefyddol [yma](#)
- Mapio a dilyniant mewn CGM – [cynradd](#); [uwchradd](#)
- Addysgu Materion Heriol a Sensitif – [cynradd](#); [uwchradd](#)
- Dyniaethau Digidol - Astudiaethau Achos GACCCD ar gyfer y prosiect a ariennir – [dolen](#)

Rhaglenni a digwyddiadau dysgu proffesiynol:

- **Newydd i Arwain Dyniaethau yn y Cynradd** - Rhaglen 3 sesiwn wedi'i chynllunio i gefnogi arweinwyr mewn lleoliadau cynradd
- **Athroniaeth i Blant (P4C) a CGM** – digwyddiad undydd yn canolbwyntio ar addysgeg P4C mewn CGM
- **Hyder wrth addysgu materion dadleuol a sensitif yn y dosbarth** - digwyddiad undydd i gefnogi hyder ymarferwyr
- **'Cynefin.'** Digwyddiad hanner diwrnod yn archwilio beth yw Cynefin, a sut y gallwn ganolbwyntio'n ystyrlon arno o fewn cyd-destun cwricwlwm yn y Dyniaethau
- **Gweminarau CGM.** Mae'r GACCCD a'r GCA wedi darparu cyfres o weminarau sydd wedi'u cynllunio i ddatblygu gwybodaeth ymarferwyr ar gyfer CGM. Roedd y rhain yn canolbwyntio ar Gristnogaeth, Iddewiaeth, Islam, Dyneiddiaeth, Hindŵ Dharma/Sanatana Dharma, Bwdhaeth, Sikhiaeth
- [Amrywiaeth a Gwrth-Hiliaeth o fewn dysgu proffesiynol y Dyniaethau](#) – digwyddiad undydd yn archwilio dulliau ysgolion o ddatblygu amrywiaeth a gwrth-hiliaeth o fewn y Dyniaethau

Mae GACCCD yn rhannu adnoddau a deunyddiau dysgu proffesiynol eraill gan gynnwys:

- Maes Llafur Cytûn Bro Morgannwg a deunyddiau ategol
- Gwybodaeth, adnoddau a gweminarau am Ddiwrnod Cofio'r Holocaust
- Cylchlythyrau, gwybodaeth ac adnoddau CBAC
- Deunyddiau o gynhadledd CCYSAGC, gan gynnwys seminarau ar-lein
- Adnoddau dysgu ac addysgu am ddim gan NATRE
- Deunyddiau o gynhadledd CCYSAGC
- Gwybodaeth ac adnoddau ar Hwb
- Adnoddau CCYSAGC a chyngor ar gyfer AG/DGM/AstC a CAD
- Rhaglenni dysgu proffesiynol Llywodraeth Cymru, podlediadau ac e-gylchgrawn CGM
- Adnoddau banc gwybodaeth a phosteri GACCCD ar grefydd, gwerthoedd a moeseg, y Dyniaethau a'r Cwricwlwm i Gymru e.e. Cynnydd yn y Dyniaethau, Mapiau Cynnydd y Dyniaethau a pholisi enghreifftiol y cwricwlwm
- Deunyddiau Estyn e.e. adroddiad thematig Estyn - dulliau effeithiol o asesu sy'n gwella dysgu ac addysgu

- Rhannwyd manylion 'gwersi o brosiect Auschwitz' gydag ysgolion
- Gwybodaeth am y Ganolfan Dreftadaeth Iddewon Cymreig ym Merthyr Tudful
- Adnoddau addysgu Humanism UK
- Canllaw presenoldeb ysgolion a gwyliau crefyddol 2024
- Cyfleoedd dysgu proffesiynol ac adnoddau DPAGh
- Podlediadau
- Darganfod Mwslimiaid ym Mhrydain - adnoddau e.e. 'cwrdd â Mwslim'
- Adnodd 'hanes crefydd yng Nghymru'
- Adnoddau a dolen i wefan Cymdeithas Hanes Iddewig De Cymru, i gefnogi CGM